# RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (PANEL APELAU COFRESTRU) 2018

**Ebrill 2018**

Mae tri math o ddogfen gyfreithiol yn ymdrin â gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol a rheoleiddio'u haddasrwydd i ymarfer, sydd **oll** yn gymwys i gofrestriad y person cofrestredig a'i addasrwydd i ymarfer:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol;**
- **Cyfres Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'u cynnwys yn y Rheolau hyn. Felly, dylech ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i roi dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Ddeddf ar gael yn:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh

Y Rheoliadau yw:

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017

Mae'r rheolau ar gael yma: https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/rheolau-gofal-cymdeithasol-cymru-2017

Y mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4), a 174(8) a 175(2) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“y Ddeddf”), Rheoliad 7 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 fel y’u diwygiwyd a’r holl bwerau eraill sy’n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i’r perwyl hwnnw, ac yn sgil ymgynghori yn unol ag adran 75 y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau a ganlyn:

## TREFNIANT Y RHEOLAU

### RHAN I

### RHAGARWEINIAD


1. Enwi, cychwyn a dirymu 6

2. Dehongliad 6


### RHAN II

### CYLCH GWAITH Y PANEL A DULL CYNNAL ACHOSION


3. Cylch gwaith 9

4. Dull cynnal achosion 9


### RHAN III

### Y WEITHDREFN YNGHYLCH APELAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU’R COFRESTRYDD


5. Cyflwyno apêl i’r cofrestrydd 10

6. Gwŷs tyst 10

7. Rheoli achos 10

8. Hysbysiad o’r gwrandawiad 11

9. Gohirio’r gwrandawiad 12

10. Absenoldeb person cofrestredig o wrandawiad gerbron panel apelau cofrestru 13

11. Baich a safon y prawf 13

12. Trefn achosion mewn gwrandawiadau llafar 13

13. Tystiolaeth 14

14. Tystion 14

15. Mesurau arbennig 14

16. Gohirio gwrandawiad ar ei ganol 15

17. Pleidleisio 15

18. Hysbysiad o'r penderfyniad 15

19. Trawsgrifiad o'r gwrandawiad 15

20. Achos heb wrandawiad 16

21. Y weithdrefn mewn cyfarfod panel addasrwydd i ymarfer 16

22. Hysbysiad o'r penderfyniad 17


## RHAN IV

## CEISIADAU YNGHYLCH ADFER YN DILYN ACHOS ADDASRWYDD I YMARFER


23. Cais i adfer 18

24. Hysbysiad o'r gwrandawiad a dogfennau ar ei gyfer 18

25. Baich a safon y prawf 19

26. Y weithdrefn mewn gwrandawiadau 19

27. Achos heb wrandawiad 20

28. Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apelau cofrestru 21

29. Hysbysiad o'r penderfyniad 21


## RHAN V

## Y WEITHDREFN YNGHYLCH ADOLYGU ATALIAD DROS DRO O'R HAWL I WNEUD CAIS I ADFER


30. Cais i adolygu cyfarwyddyd 22

31. Hysbysiad o'r gwrandawiad 22

| | | |
|---|---|---|
| 32. | Baich a safon y prawf | 23 |
| 33. | Y weithdrefn mewn gwrandawiadau | 23 |
| 34. | Achos heb wrandawiad | 23 |
| 35. | Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apelau cofrestru | 24 |
| 36. | Hysbysiad o’r penderfyniad | 24 |

# RHAN I

# RHAGARWEINIAD

**Enwi, cychwyn a dirymu**

1. (1) Enwir y Rheolau hyn yn Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Panel Apelau Cofrestru) 2017, a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018.

(2) Caiff Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Cofrestru) 2015(b) ("Rheolau 2015(b)") eu dirymu trwy hyn, ond pan fydd gwrandawiad gerbron Pwyllgor Cofrestru wedi dechrau cyn 3 Ebrill 2017 ond heb ei gwblhau erbyn y dyddiad hwnnw, bydd Rheolau 2015(b) yn parhau'n gymwys fel pe bai'r Rheolau hynny yn parhau mewn grym.

(3) Caiff Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Apelau Cofrestru) 2017 ("Rheolau 2017") eu dirymu trwy hyn, ond pan fydd gwrandawiad gerbron Panel Apelau Cofrestru wedi dechrau ar neu ar ôl 3 Ebrill 2017, ond cyn 1 Ebrill 2018, a heb ei gwblhau erbyn 1 Ebrill 2018 bydd Rheolau 2017 yn parhau'n gymwys fel pe bai'r Rheolau hynny yn parhau mewn grym.

**Dehongliad**

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall:

ystyr "**Deddf**" yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "**apelydd**" yw person sy'n dwyn apêl gofrestru o dan Ran III;

ystyr **"ymgeisydd"** yw person sy'n gwneud cais o dan Ran IV neu V;

ystyr "**achos"** yw achos sy'n ymwneud ag apêl gofrestru gerbron panel apelau cofrestru;

ystyr **"rheolau trefniadaeth sifil"** yw rheolau'r llys a wneir o dan adran 2 Deddf Trefniadaeth Sifil 1997;

ystyr **"clerc"** yw'r sawl sy'n gyfrifol am y trefniadau gweinyddol ar gyfer y cyfarfod fel y'i diffinnir yn Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2017;

ystyr "**proses electronig**" yw proses wedi'i chymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno cais neu gadarnhad o wybodaeth mewn modd electronig mewn cysylltiad â chais;

ystyr "**cyflogwr"** yw cyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (yn gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol);

ystyr "**achosion addasrwydd i ymarfer**" yw achosion gerbron panel addasrwydd i ymarfer;

ystyr “**panel addasrwydd i ymarfer”** yw panel a sefydlwyd yn unol â rheol 3(1)(a) Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) i:

(a) wneud dyfarniadau mewn perthynas ag addasrwydd unigolion sydd wedi’u cofrestru ar y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;

(b) atal dros dro, neu ychwanegu amodau at, gofrestriad unigolyn ar y gofrestr wrth aros am ddyfarniad o’r math a ddisgrifir ym mharagraff (a);

ystyr “**Rheolau Addasrwydd i Ymarfer**” yw Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2017;

ystyr **“*in camera”*** yw yn absenoldeb y partïon a’u cynrychiolwyr, a’r cyhoedd;

ystyr “**cynghorydd cyfreithiol”** yw unigolyn â chymhwyster cyffredinol deng mlynedd yn unol ag ystyr adran 71 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 sy’n gymwys i ymarfer y gyfraith yng Nghymru a Lloegr;

ystyr “**cynghorydd meddygol**” yw ymarferydd meddygol, wedi’i gofrestru o dan Ddeddf Meddygaeth 1983, a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

ystyr **“hysbysiad”** yw gwybodaeth yn ymwneud â chofrestriad person cofrestredig, a ddyroddir gan y cofrestrydd neu’r person cofrestredig (neu ei gynrychiolydd), neu wybodaeth yn ymwneud ag achos gerbron panel apelau cofrestru;

ystyr “**partïon**” yw’r apelydd neu’r ymgeisydd a Gofal Cymdeithasol Cymru (neu eu cynrychiolwyr);

ystyr **“cyflwynydd”** yw’r unigolyn sy’n gweithredu ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru mewn gwrandawiad gerbron panel, a gall gynnwys swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru neu gyfreithiwr neu fargyfreithiwr a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru at y diben hwn;

ystyr “**cofrestr**” yw’r gofrestr a gedwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

ystyr “**cofrestrydd”** yw’r unigolyn a benodwyd yn unol ag adran 81(1) a (2) y Ddeddf;

ystyr “**cofrestriad**” yw’r cofnod ar y gofrestr sy’n ymwneud â pherson cofrestredig penodol;

ystyr "**apêl gofrestru"** yw’r ystyr a roddir yn rheoliad 3 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, sef:

(a) apêl a wneir yn unol ag adran 101 o’r Ddeddf yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd;

(b) cais a wneir yn unol ag adran 97(5) o’r Ddeddf i adolygu cyfarwyddyd o dan adran 98(4) o’r Ddeddf;

(c) cais a wneir yn unol ag adran 97(2) o’r Ddeddf i adfer cofnod person i ran o’r gofrestr yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer;

ystyr “**gwrandawiad apelau cofrestru**” yw’r ystyr a roddir yn rheoliad 3 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, sef gwrandawiad gerbron panel apelau cofrestru mewn achos apelau cofrestru;

ystyr "**achos apelau cofrestru**" yw’r ystyr a roddir yn rheoliad 3 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, sef achos gerbron panel apelau cofrestru y mae adran 98(1), 99(2) neu 103 o’r Ddeddf yn gymwys mewn cysylltiad ag ef;

ystyr **"Rheolau Cofrestru"** yw Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2017;

ystyr “**Gofal Cymdeithasol Cymru”** yw’r corff corfforaethol o’r enw Gofal Cymdeithasol Cymru, sef Cyngor Gofal Cymru yn flaenorol;

ystyr **“tribiwnlys”** yw’r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

(2) Yn y rheolau hyn, oni fynna’r cyd-destun fel arall:

(a) bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a bydd geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
(b) bydd unrhyw gyfeiriad at reol neu ran â rhif iddi yn gyfeiriad at y rheol neu’r rhan sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
(c) bydd unrhyw gyfeiriad mewn rheol neu ran at baragraff â rhif iddo, yn gyfeiriad at y paragraff sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno;
(d) bydd unrhyw gyfeiriad mewn paragraff mewn rheol neu ran at is-baragraff â rhif iddo yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno.

## RHAN II

## CYLCH GWAITH Y PANEL

**Cylch Gwaith**

3. (1) Mae'r rheolau hyn yn gymwys i'r achosion canlynol gerbron y panel apelau cofrestru:

(a) apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 83 y Ddeddf i beidio â chaniatáu cais i gofrestru (a fydd yn cynnwys penderfyniad i beidio â chaniatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr);

(b) apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 86 y Ddeddf, i beidio â chaniatáu cais i adnewyddu cofrestriad;

(c) apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 94(1) y Ddeddf i ddileu cofnod y person cofrestredig o'r gofrestr neu ddileu anodiad i gofnod (pan fo'r cofnod, neu anodiad i gofnod, wedi ei gynnwys ar y gofrestr ar sail gwybodaeth anwir neu gamarweiniol);

(d) apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 96(1) y Ddeddf i beidio â chaniatáu cais i adfer cofnod i'r gofrestr (pan fo'r ymgeisydd wedi'i ddileu drwy gytundeb neu o ganlyniad i gofnod sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol);

(e) cais i adfer cofnod i'r gofrestr o dan adran 97(2) y Ddeddf pan fo panel addasrwydd i ymarfer wedi gwneud gorchymyn dileu o dan adrannau 138(9), 152(8)(e), 153(9)(d) neu 154(8)(d) y Ddeddf;

(f) cais o dan adran 97(5) y Ddeddf i adolygu cyfarwyddyd a roddwyd gan banel apelau cofrestru o dan adran 98(4) y Ddeddf.

(2) Bydd Rhan II y rheolau hyn yn gymwys i apelau o dan baragraff (1)(a) i (d).

(3) Bydd Rhan III y rheolau hyn yn gymwys i geisiadau o dan baragraff (1)(e).

(4) Bydd Rhan IV y rheolau hyn yn gymwys i geisiadau o dan baragraff (1)(f).

**Dull cynnal achosion**

4. (1) Bydd y panel apelau cofrestru yn cynnal ei achosion yn unol â gofynion y Rheolau hyn a gofynion Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016.

## RHAN III

## Y WEITHDREFN YNGHYLCH APELAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R COFRESTRYDD

### Cyflwyno apêl i'r cofrestrydd

5. (1) Rhaid rhoi hysbysiad o apêl i'r cofrestrydd o dan adran 101 y Ddeddf yn ysgrifenedig (a all gynnwys trwy broses electronig).

### Gwŷs tyst

6. (1) Pan fo un o'r partïon yn mynnu bod tyst yn bresennol, neu fod tyst yn cyflwyno tystiolaeth neu ddogfen berthnasol, a bod y tyst hwnnw wedi gwrthod bod yn bresennol neu wedi gwrthod cyflwyno'r ddogfen gerbron y gwrandawiad (neu wedi methu cadarnhau y bydd yn gwneud hynny), gall y parti wneud cais am gyfarwyddyd priodol y gellid ei ystyried mewn cyfarfod rheoli achos neu yn y gwrandawiad gerbron y panel apelau cofrestru.

(2) Ar ôl ystyried sylwadau'r parti sy'n ceisio'r cyfarwyddyd ac unrhyw sylwadau gan y parti arall, bydd y panel rheoli achos neu'r panel apelau cofrestru yn penderfynu p'un a ddylid gwneud cyfarwyddyd sef y gall Gofal Cymdeithasol Cymru wneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys i gyhoeddi gwŷs tyst yn unol â Rheol 34.4 Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998.

(3) Wrth wneud dyfarniad, bydd y panel yn ystyried perthnasedd a phwysigrwydd tystiolaeth y tyst neu'r ddogfen dan sylw a ph'un a yw'n deg ac yn briodol gwneud y cyfarwyddyd y gofynnir amdano.

(4) Pan wneir cyfarwyddyd, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys ac yn cael y gwŷs tyst briodol.

(5) Pan fydd y cais am gyfarwyddyd ar gyfer gwŷs tyst wedi'i wneud gan Ofal Cymdeithasol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yn trefnu cyflwyno'r wŷs i'r tyst dan sylw.

(6) Oni chyfeirir fel arall, lle y gwnaed y cais am gyfarwyddyd gan neu ar ran y person cofrestredig, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu'r gwŷs tyst i'r person cofrestredig neu ei gynrychiolydd ar ôl i'r wŷs gael ei chyhoeddi a bydd y person cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn trefnu cyflwyno'r wŷs i'r tyst dan sylw.

(7) Oni chyfeirir fel arall, y parti sy'n cyflwyno'r gwŷs tyst fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw dreuliau teithio a/neu iawndal am golli amser fel y bo'n ofynnol o dan Reol 34.7 y Rheolau Trefniadaeth Sifil.

### Cyfarfod rheoli achos

7. (1) Caiff person a awdurdodir yn briodol, boed ar gais un o'r partïon neu fel arall, gynnull cyfarfod rheoli achos cyn panel apelau cofrestru.

(2) Ar ôl gwahodd sylwadau ysgrifenedig gan y ddau barti, bydd person a awdurdodir yn briodol yn penderfynu a gynhelir y cyfarfod rheoli achos ac,

os felly, a ddylid ei gynnal ar sail y papurau yn unig, dros y ffôn, trwy fideo gynadledda, neu drwy gyfarfod llafar. Bydd y person a awdurdodir yn briodol yn gwneud trefniadau ac yn anfon hysbysiad priodol at yr apelydd a'i gynrychiolydd ac at y cyflwynydd o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y cyfarfod rheoli achos.

(3) Bydd y panel ar gyfer cyfarfod rheoli achos yn cynnwys un neu dri aelod panel ac yn cael cyngor gan gynghorydd cyfreithiol. Gellid defnyddio'r un aelod neu aelodau panel, neu gellid defnyddio aelodau gwahanol, fel rhan o banel yr apêl gofrestru.

(4) Caiff y panel roi cyfarwyddydau at ddiben sicrhau achos a gynhelir yn gyfiawn, yn hwylus ac yn effeithiol, a chaiff wneud dyfarniad ynghylch mater rhagarweiniol y gall panel yn unig wneud dyfarniad yn ei gylch, gan gynnwys:

(a) a ddylid derbyn tystiolaeth benodol;
(b) a ddylid trin tyst penodol yn un sydd angen mesurau arbennig ac, os felly, pa fesurau arbennig y dylid eu rhoi ar waith;
(c) a ddylid cynnal gwrandawiad neu ran ohono yn breifat yn unol â rheoliad 9 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016;
(d) a ddylai'r apelydd gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad gerbron y panel apelau cofrestru gan unigolyn heblaw am gyfreithiwr, cwnsler neu gynrychiolydd o gorff proffesiynol;
(e) a all yr achos gael ei gynnal heb wrandawiad pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys yn unol â rheol 19;
(f) a godir iechyd yr apelydd fel mater yn yr achos;
(g) a ddylai Gofal Cymdeithasol Cymru wneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys am wŷs tyst.

(5) Y panel yn unig fydd yn penderfynu ar y weithdrefn yn y cyfarfod rheoli achos.

(6) Cynhelir cyfarfod rheoli achos yn breifat, oni bai bod y panel yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.

(7) Pan fydd parti yn methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddydau a roddir mewn cyfarfod rheoli achos, caiff panel apelau cofrestru ddod i'r cyfryw gasgliadau ag y bo'n eu hystyried yn briodol a/neu wneud pa benderfyniad bynnag sy'n fwyaf priodol yn ei dyb ef mewn perthynas â derbynioldeb tystiolaeth neu unrhyw fater perthnasol arall.

**Hysbysiad o'r gwrandawiad**

8. (1) O leiaf 42 ddiwrnod cyn gwrandawiad y panel apelau cofrestru, bydd y clerc yn anfon hysbysiad at yr apelydd sydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad cyfarfod y panel apelau cofrestru;

(b) yn amlinellu unrhyw resymau dros wrthod cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad neu ddileu cofrestriad neu ddychwelyd i'r gofrestr neu adfer i'r gofrestr (o dan reol 3(2));

(c) yn amlinellu hawl yr apelydd i wneud sylwadau ysgrifenedig i GCC, cyn pen 14 diwrnod o gyflwyno'r hysbysiad;

(d) yn hysbysu'r apelydd am yr hawl i fynychu'r gwrandawiad a gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel neu gael ei gynrychioli gan:
   (i) gyfreithiwr neu gwnsler,
   (ii) cynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol, neu
   (iii) os bydd y panel apelau cofrestru yn cytuno, unrhyw berson arall.

(e) yn hysbysu'r apelydd y dylai unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan berson heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru ym mharagraff (d) uchod, gael ei anfon at y clerc heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn cyfarfod y panel;

(f) yn gofyn am gadarnhad o'r canlynol, sef:
   (i) a yw'r apelydd yn bwriadu mynychu'r gwrandawiad;
   (ii) a yw'r apelydd yn bwriadu cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad;
   (iii) a yw'r apelydd yn cytuno y gellir dyfarnu ar yr achos heb wrandawiad os bydd yr amgylchiadau yn rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys;

(g) yn gofyn i'r apelydd hysbysu'r panel ynghylch p'un a yw'r apelydd yn dymuno gwneud cais am gynnal yr achos cyfan, neu ran ohono, yn breifat o dan reoliad 9(2) neu (3) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016;

(h) yn hysbysu'r apelydd na all person sy'n bwriadu mynychu'r gwrandawiad a rhoi tystiolaeth iddo fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes bod y cyfryw dystiolaeth wedi'i rhoi, heb ganiatâd y panel;

(i) yn hysbysu'r apelydd am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel;

(j) yn hysbysu'r apelydd am bŵer y panel i fwrw ymlaen yn absenoldeb yr apelydd neu gynrychiolydd yr apelydd yn y gwrandawiad;

(k) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau a roddir gerbron y panel apelau cofrestru, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.

(2) Ni chaiff y gwrandawiad ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad cyn 42 ddiwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad ym mharagraff (1) ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

(3) Heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod cyn cyfarfod y panel apelau cofrestru, rhaid i'r partïon gyflwyno i'w gilydd, a chyflwyno i ofal y clerc, gopïau o unrhyw ddogfennau y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

(4) Heb fod yn hwyrach na saith niwrnod cyn cyfarfod y panel apelau cofrestru, bydd y clerc yn anfon y canlynol at bob aelod o'r panel:

(a) copi o'r hysbysiad o'r gwrandawiad;

(b) copïau o bob ddogfen, gan gynnwys tystiolaeth a sylwadau, a gyflwynwyd gan yr apelydd;

(c) unrhyw wybodaeth neu gopïau o unrhyw ddogfennau a gafwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n berthnasol i'r apêl.

**Gohirio'r gwrandawiad**

9. (1) Pan fo'r naill barti neu'r llall yn dymuno i'r gwrandawiad gael ei ohirio, rhaid cyflwyno cais o'r fath yn ysgrifenedig i gadeirydd y panel.

(2) Rhaid i'r parti sy'n gwneud y cais gyflwyno copi o'r cais i'r parti arall, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.

(3) Caiff y parti y cyflwynwyd y cais iddo gyflwyno ymateb ysgrifenedig i gadeirydd y panel.

(4) Bydd cadeirydd y panel yn ystyried y cais ac yn penderfynu arno, gan ystyried:

(a) cyflwyniadau'r ddau barti;
(b) unrhyw ragfarn debygol i'r naill barti neu'r llall;
(c) y budd i'r cyhoedd o waredu'r cais yn hwylus.

(5) Os cytunir i'r cais i ohirio neu os bydd rhaid ad-drefnu'r mater am reswm arall, bydd y clerc yn rhoi gwybod i'r partïon am ddyddiad newydd y gwrandawiad cyn gynted â phosibl.

**Absenoldeb apelydd o wrandawiad gerbron panel apelau cofrestru**

10. (1) Caiff gwrandawiad gerbron panel apelau cofrestru fynd yn ei flaen hyd yn oed os nad yw'r apelydd yn bresennol ac os nad yw wedi ei gynrychioli, os yw'r panel wedi ei fodloni bod pob ymdrech resymol wedi ei gwneud i roi hysbysiad o'r gwrandawiad i'r person.

(2) Os nad yw'r apelydd yn bresennol ac os nad yw wedi ei gynrychioli yn y gwrandawiad, bydd y panel:

(a) yn gofyn am dystiolaeth bod hysbysiad o'r gwrandawiad wedi'i anfon at yr apelydd yn unol â rheol 7; ac
(b) yn holi a yw unrhyw resymau dros ddiffyg presenoldeb yr apelydd wedi'u cyfleu i Ofal Cymdeithasol Cymru.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, bydd y panel yn penderfynu a ddylai arfer y disgresiwn o dan reoliad 12(4) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 i fwrw ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb yr apelydd neu ohirio'r gwrandawiad ar ei ganol a rhaid iddo roi rhesymau dros y penderfyniad.

**Baich a safon y prawf**

11. (1) Yr apelydd fydd yn gyfrifol am faich y prawf mewn achosion gerbron y panel apelau cofrestru o dan reol 3(1)(a), (b) neu (d).

(2) Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yn gyfrifol am faich y prawf mewn achosion gerbron y panel apelau cofrestru o dan reol 3(1)(c).

(3) Pan fo anghydfod ynghylch y ffeithiau, bydd panel yn penderfynu ar y ffeithiau yn unol â'r safon mewn achosion sifil, yn unol â phwysau tebygolrwydd.

**Trefn achosion mewn gwrandawiadau**

12. (1) Pan gynhelir gwrandawiad gyda thystiolaeth lafar a/neu gyflwyniadau llafar, bydd trefn achosion gerbron y panel apelau cofrestru fel a ganlyn:

(a) bydd y cyflwynydd yn gwneud datganiad agoriadol o'r rhesymau dros benderfyniad y cofrestrydd;
(b) bydd hawl gan yr apelydd ymateb, naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd (os yw'n bresennol);
(c) caiff y cyflwynydd gyflwyno tystiolaeth i ategu penderfyniad y cofrestrydd;
(d) caiff yr apelydd, naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd, gyflwyno tystiolaeth;
(e) pan fo'r apelydd yn rhoi tystiolaeth, caiff y cyflwynydd a'r panel apelau cofrestru gyfle i ofyn cwestiynau i'r apelydd;
(f) caiff y partïon gyfle i wneud cyflwyniadau terfynol;
(g) ar ôl cael cyngor cyfreithiol, bydd y panel yn gwneud dyfarniad ar yr apêl *in camera*;
(h) bydd cadeirydd y panel apelau cofrestru yn cyhoeddi'r penderfyniad, a'r rhesymau dros ei benderfyniad, ym mhresenoldeb y partïon.

**Tystiolaeth**

13. (1) Yn ddarostyngedig i reoliad 8(2) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, caiff panel dderbyn tystiolaeth lafar, tystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth arall.

(2) Bydd cynhyrchu cofnod o rybuddiad yn dystiolaeth prima facie o'r ffeithiau wrth wraidd y drosedd sydd wedi arwain at y rhybuddiad.

(3) Caiff panel dderbyn tystiolaeth a gyflwynir gan barti er nad yw'r dystiolaeth honno wedi'i datgelu yn unol â rheol 8(2):

(a) os bydd y partïon yn cydsynio; neu
(b) pan fo'r panel, ar ôl gwrando ar gyflwyniadau gan y partïon a chael cyngor cyfreithiol gan y cynghorydd cyfreithiol, yn fodlon bod y dystiolaeth yn berthnasol ac y byddai'n deg ei derbyn.

(4) O'i wirfodd, caiff panel ofyn i'r partïon ddarparu dogfennaeth neu dystiolaeth arall neu ofyn i unrhyw berson roi tystiolaeth lafar a allai, ym marn y panel, gynorthwyo â gwneud dyfarniad.

**Tystion**

14. (1) Rhaid i dystion dyngu llw neu ddwyshaeru.

(2) Ar gais y parti sy'n galw'r tyst, caiff panel gytuno na chaiff manylion personol y tyst eu datgelu'n gyhoeddus.

(3) Bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw ac yna gallant gael eu croesholi gan y parti sy'n gwrthwynebu. Yna, caiff y parti sy'n galw'r tyst ailholi'r tyst.

(4) Yna, caiff tystion eu holi gan banel neu gan y cynghorydd cyfreithiol, gyda chaniatâd y cadeirydd.

(5) Yna, caiff y partïon holi'r tystion ynghylch materion sy'n deillio o gwestiynau'r panel. Y parti sy'n galw'r tyst fydd y diwethaf i holi'r tyst.

(6) Bydd y gallu i holi tystion ymhellach yn ôl disgresiwn y panel.

(7) Ni chaniateir i dystion fynychu a gwylio'r achos hyd nes byddant wedi gorffen rhoi tystiolaeth i banel a'u rhyddhau'n ffurfiol gan y cadeirydd.

**Mesurau arbennig**

15. (1) Pan fo panel yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 11(10) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, gall y mesurau arbennig i'w gweithredu neu eu darparu gynnwys y canlynol, ond ni fyddant yn gyfyngedig iddynt:

(a) defnyddio cysylltiadau fideo;
(b) defnyddio tystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw fel tystiolaeth tyst;
(c) defnyddio sgriniau;
(d) defnyddio dehonglwyr (gan gynnwys arwyddwyr a chyfieithwyr) neu gyfryngwyr.

**Gohirio'r gwrandawiad ar ei ganol**

16. (1) Yn ddarostyngedig i ofynion gwrandawiad teg ac ar ôl clywed sylwadau gan y partïon, caiff panel, ar unrhyw adeg o'r gwrandawiad, ohirio'r achos ar ei ganol i ofyn am ragor o wybodaeth neu at unrhyw ddiben arall.

(2) Os bydd y gwrandawiad wedi'i ohirio ar ei ganol, bydd y clerc, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn hysbysu'r partïon o'r dyddiad a ddewiswyd ar gyfer ailgychwyn y gwrandawiad.

**Pleidleisio**

17. (1) Gwneir penderfyniadau gan y panel ar sail mwyafrif syml.

(2) Ni chaiff cadeirydd y panel gyflwyno pleidlais fwrw.

(3) Ystyrir y bydd ymatal pleidlais yn bleidlais o blaid yr apelydd.

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

18. (1) Cyn pen saith niwrnod o ddiwedd y gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at yr apelydd a chyflogwr(wyr) yr apelydd (os oes un/rhai).

(2) Bydd yr hysbysiad o'r penderfyniad:

(a) yn amlinellu'r penderfyniad a rhesymau'r panel apelau cofrestru;
(b) lle y bo'n gymwys, yn amlinellu hawl yr apelydd i apelio i'r tribiwnlys.

(3) Caiff GCC hysbysu'r canlynol am y penderfyniad, yn ysgrifenedig neu trwy broses electronig a chyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) unrhyw gorff rheoleiddiol.

**Trawsgrifiad o'r gwrandawiad**

19. (1) Gwneir trefniadau ar gyfer cofnodi gwrandawiad gerbron panel.

(2) Os gwneir cais, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn anfon trawsgrifiad i'r apelydd o'r cofnod, o unrhyw ran o'r achos yr oedd hawl gan yr apelydd fod yn bresennol ar ei gyfer.

**Achos heb wrandawiad**

20. (1) Pan wneir dyfarniad ar apêl mewn cyfarfod a heb yr angen am wrandawiad yn unol â Rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd gofynion canlynol y rheol yn gymwys a bydd rheol 21 yn gymwys mewn perthynas â'r weithdrefn i'w dilyn.

(2) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at yr apelydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
(b) yn cynnwys yr holl ddogfennau bydd y panel yn eu hystyried;
(c) yn hysbysu'r apelydd am y canlyniadau posibl;
(d) yn gwahodd yr apelydd i ddarparu unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig y mae'n dymuno'u gwneud ynghylch yr achos cyn pen 14 diwrnod o gyflwyno'r hysbysiad;
(e) yn hysbysu'r apelydd o'i hawliau i:
  (i) fynychu gwrandawiad llafar;
  (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;
  (iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
  (iv) galw tystion a'u croesholi;

(f) yn hysbysu'r apelydd bod yn rhaid iddo hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o'r cyfarfod os yw'n dymuno arfer unrhyw hawl ym mharagraff (e) ac, yn absenoldeb unrhyw hysbysiad o'r fath, y caiff y panel apelau cofrestru fwrw ymlaen i ymdrin â'r achos mewn cyfarfod ar y dyddiad penodedig.

(3) Ni chaiff y cyfarfod ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad cyn 42 ddiwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r cyfarfod ym mharagraff (1) ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

**Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apelau cofrestru**

21. (1) Bydd panel apelau cofrestru yn cyfarfod yn breifat gyda chynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti yn bresennol.

(2) Pan fo'r apelydd wedi gwneud cais i'r achos gael ei ystyried mewn gwrandawiad, bydd y panel yn gohirio'r cyfarfod ar ei ganol ac yn atgyfeirio'r achos i wrandawiad.

(3) Os bydd y panel yn ystyried, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, y dylid ymdrin â'ch achos mewn gwrandawiad er cyfiawnder ac er budd y cyhoedd, atgyfeirir yr achos i wrandawiad.

(4) Bydd y panel yn ystyried yr achos ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig a'r cyflwyniadau ysgrifenedig a wnaed gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chan neu ar ran yr apelydd.

(5) Bydd penderfyniad panel apelau cofrestru a'r rhesymau dros y penderfyniad yn cael eu datgan yn gyhoeddus, naill ai ar ddiwedd y cyfarfod neu ar ddyddiad dilynol.

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

22. (1) Cyn pen saith niwrnod o ddiwedd y cyfarfod, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at yr apelydd a chyflogwr(wyr) yr apelydd (os oes un/rhai).

(2) Bydd yr hysbysiad o'r penderfyniad:

(a) yn amlinellu'r penderfyniad a rhesymau'r panel apelau cofrestru;
(b) lle y bo'n gymwys, yn amlinellu hawl yr apelydd i apelio i'r tribiwnlys.

(3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol am y penderfyniad, yn ysgrifenedig neu trwy broses electronig a chyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) unrhyw gorff rheoleiddiol.

## RHAN IV

## CEISIADAU YNGHYLCH ADFER YN DILYN ACHOS ADDASRWYDD I YMARFER

### Cais i adfer

23. (1) Rhaid i berson sy'n gwneud cais i'w adfer i'r gofrestr yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer ddarparu'r canlynol i'r cofrestrydd:

(a) cais yn y ffurf a'r modd a amlinellir yn Rhan II y Rheolau Cofrestru;
(b) y ffi briodol (fel y'i hamlinellir yn Atodlen 3 i'r Rheolau Cofrestru).

(2) Ystyrir y bydd cais i adfer yn gais cychwynnol i gofrestru o dan Ran II y Rheolau Cofrestru, a dylai gydymffurfio â darpariaethau perthnasol Rhan II y Rheolau hynny.

### Hysbysiad o'r gwrandawiad a dogfennau ar ei gyfer

24. (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais cyflawn i adfer i'r gofrestr, bydd y clerc yn anfon y canlynol at yr ymgeisydd:

(a) copi o drawsgrifiad o wrandawiad y panel addasrwydd i ymarfer a gyflwynodd y gorchymyn dileu;
(b) unrhyw ddogfennau y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn dibynnu arnynt;
(c) hysbysiad o wrandawiad gerbron y panel apelau cofrestru.

(2) O leiaf 42 ddiwrnod cyn gwrandawiad y panel apelau cofrestru, bydd y clerc yn anfon hysbysiad at yr ymgeisydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;
(b) yn hysbysu'r ymgeisydd am yr hawl i fynychu'r gwrandawiad a gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel neu gael ei gynrychioli gan:
    (i) gyfreithiwr neu gwnsler,
    (ii) cynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol, neu
    (iii) os bydd y panel apelau cofrestru yn cytuno, unrhyw berson arall;
(c) yn hysbysu'r ymgeisydd y dylai unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan berson heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru ym mharagraff (1)(b) uchod, gael ei anfon at y clerc heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn cyfarfod y panel;
(d) yn gofyn am gadarnhad o'r canlynol:
    (i) a yw'r ymgeisydd yn bwriadu mynychu'r gwrandawiad;
    (ii) a yw'r ymgeisydd yn bwriadu cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad;
    (iii) a yw'r ymgeisydd yn cytuno y gellir dyfarnu ar yr achos heb wrandawiad os bydd yr amgylchiadau yn rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys;
(e) yn gofyn i'r ymgeisydd hysbysu'r panel ynghylch p'un a yw'r ymgeisydd yn dymuno gwneud cais am gynnal yr achos cyfan, neu ran ohono, yn breifat o dan reoliad 9(2) neu (3) Rheoliadau

Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2017;

(f) yn hysbysu'r ymgeisydd na all person sy'n bwriadu mynychu'r gwrandawiad a rhoi tystiolaeth iddo fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes bod y cyfryw dystiolaeth wedi'i rhoi, heb ganiatâd y panel;

(g) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau a roddir gerbron y panel apelau cofrestru;

(h) yn hysbysu'r ymgeisydd am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel;

(i) yn hysbysu'r ymgeisydd am bŵer y panel i fwrw ymlaen yn absenoldeb yr ymgeisydd neu gynrychiolydd yr ymgeisydd, yn y gwrandawiad.

(3) Ni chaiff y gwrandawiad ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad cyn 42 ddiwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad ym mharagraff (2) ac eithrio gyda chytundeb yr ymgeisydd.

(4) Heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod cyn cyfarfod y panel apelau cofrestru, bydd yr ymgeisydd yn rhoi i'r clerc gopïau o unrhyw ddogfennau y mae'r ymgeisydd yn bwriadu dibynnu arnynt.

(5) Heb fod yn hwyrach na saith niwrnod cyn cyfarfod y panel apelau cofrestru, bydd y clerc yn anfon y canlynol at bob aelod o'r panel:

(a) copi o'r hysbysiad o'r gwrandawiad;

(b) copïau o bob dogfen a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd;

(c) unrhyw wybodaeth neu gopïau o unrhyw ddogfennau a gafwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru sy'n berthnasol i'r cais; ac

(d) unrhyw sylwadau y mae'r ymgeisydd wedi'u cyflwyno.

**Baich a safon y prawf**

25. (1) Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am faich y prawf mewn achosion gerbron y panel apelau cofrestru o dan reol 3(1)(e).

(2) Pan fo anghydfod ynghylch y ffeithiau, bydd panel yn penderfynu ar y ffeithiau yn unol â'r safon mewn achosion sifil, yn unol â phwysau tebygolrwydd.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiadau**

26. (1) Bydd Rheolau 7, 9, 10 a 12 i 19 yn gymwys i geisiadau o dan y rhan hon fel y bônt yn gymwys i apelau o dan Ran III.

(2) Bydd y cyflwynydd yn amlinellu hanes achos yr ymgeisydd a'r amgylchiadau y gwnaed y gorchymyn dileu odanynt.

(3) Caiff y cyflwynydd gyflwyno unrhyw ddogfennau a ystyriwyd gan y panel addasrwydd i ymarfer a wnaeth y gorchymyn dileu ac unrhyw ddogfennau sydd wedi dod i law Gofal Cymdeithasol Cymru ers hynny sy'n ymwneud ag addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer a chaiff alw tystion i roi tystiolaeth.

(4) Caiff yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd annerch y panel ynghylch pam y dylid adfer y cofrestriad a chaiff alw tystion i gefnogi'r cais.

(5) Bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw a gallant gael eu holi gan y parti arall, y panel a'r cynghorydd cyfreithiol.

(6) Bydd y panel apelau cofrestru yn cael cyngor cyfreithiol gan y cynghorydd cyfreithiol cyn dyfarnu ar y cais.

(7) Bydd y panel apelau cofrestru yn cael cyngor meddygol gan y cynghorydd meddygol cyn dyfarnu ar y cais pan wnaed y gorchymyn dileu ar sail bod amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer oherwydd rhesymau iechyd.

(8) Wrth wneud dyfarniad, bydd y panel apelau cofrestru yn ystyried:

(a) y rhesymau dros ddileu'r ymgeisydd o'r gofrestr;
(b) tystiolaeth ynghylch addasrwydd presennol yr ymgeisydd i ymarfer;
(c) tystiolaeth ynghylch ymddygiad yr ymgeisydd ers ei ddileu o'r gofrestr;
(d) yr angen i amddiffyn y cyhoedd;
(e) y budd i'r cyhoedd o gynnal hyder mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**Achos heb wrandawiad**

27. (1) Pan wneir dyfarniad ar gais o dan y Rhan hon mewn cyfarfod a heb yr angen am wrandawiad yn unol â Rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd gofynion canlynol y rheol hon yn gymwys a bydd rheol 28 yn gymwys mewn perthynas â'r weithdrefn i'w dilyn.

(2) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at yr ymgeisydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
(b) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y panel;
(c) yn hysbysu'r ymgeisydd am y canlyniadau posibl;
(d) yn gwahodd yr ymgeisydd i ddarparu unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig y mae'n dymuno'u gwneud ynghylch yr achos;
(e) yn hysbysu'r ymgeisydd o'i hawliau i:
    (i) fynychu gwrandawiad llafar;
    (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;
    (iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
    (iv) galw tystion a'u croes-holi;
(f) yn hysbysu'r ymgeisydd bod yn rhaid iddo hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o'r cyfarfod os yw'n dymuno arfer unrhyw hawl ym mharagraff (e) ac, yn absenoldeb unrhyw hysbysiad o'r fath, y caiff y panel apelau cofrestru fwrw ymlaen i ymdrin â'r achos mewn cyfarfod ar y dyddiad penodedig.

(3) Ni chaiff y cyfarfod ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad cyn 42 ddiwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r cyfarfod ym mharagraff (1) ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

**Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apelau cofrestru**

28. (1) Bydd panel apelau cofrestru yn cyfarfod yn breifat gyda chynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti yn bresennol.

(2) Pan fo'r ymgeisydd wedi gwneud cais i'r achos gael ei ystyried mewn gwrandawiad, bydd y panel yn gohirio'r cyfarfod ar ei ganol ac yn atgyfeirio'r achos i wrandawiad.

(3) Os bydd y panel yn ystyried, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, y dylid ymdrin â'ch achos mewn gwrandawiad er cyfiawnder ac er budd y cyhoedd, atgyfeirir yr achos i wrandawiad.

(4) Bydd y panel yn ystyried yr achos ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig a'r cyflwyniadau ysgrifenedig a wnaed gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chan neu ar ran yr ymgeisydd.

(5) Bydd penderfyniad panel apelau cofrestru a'r rhesymau dros y penderfyniad yn cael eu datgan yn gyhoeddus, naill ai ar ddiwedd y cyfarfod neu ar ddyddiad dilynol.

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

29. (1) Cyn pen saith niwrnod o ddiwedd y gwrandawiad neu'r cyfarfod, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at yr ymgeisydd a chyflogwr(wyr) yr ymgeisydd (os oes un/rhai).

(2) Bydd yr hysbysiad o'r penderfyniad:

(a) yn amlinellu'r penderfyniad a rhesymau'r panel apelau cofrestru;
(b) lle y bo'n gymwys, yn amlinellu hawl yr ymgeisydd i apelio i'r tribiwnlys.

(3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol am y penderfyniad, yn ysgrifenedig neu trwy broses electronig a chyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) unrhyw gorff rheoleiddiol.

## RHAN V

## Y WEITHDREFN YNGHYLCH ADOLYGU ATALIAD DROS DRO O'R HAWL I WNEUD CAIS I ADFER

### Cais i adolygu cyfarwyddyd

30. (1) Rhaid i berson sy'n gwneud cais i adolygu'r cyfarwyddyd o dan y Rhan hon ddarparu cais ysgrifenedig i'r cofrestrydd ynghyd â chopïau o'r holl ddogfennau y mae'n dibynnu arnynt i ategu'r cais.

### Dogfennau hysbysiad o'r gwrandawiad

31. (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais i adolygu'r cyfarwyddyd, bydd y clerc yn anfon y canlynol at yr ymgeisydd:

(a) copi o drawsgrifiad o wrandawiad addasrwydd i ymarfer a gyflwynodd y gorchymyn dileu;
(b) copi o benderfyniad y panel apelau cofrestru, yn cynnwys y cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 98(4) y Ddeddf;
(c) unrhyw ddogfennau eraill y bydd GCC yn dibynnu arnynt;
(d) hysbysiad o wrandwiad gerbron y panel apelau cofrestru.

(2) O leiaf 42 ddiwrnod cyn gwrandawiad y panel apelau cofrestru, bydd y clerc yn anfon hysbysiad at yr ymgeisydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;
(b) yn amlinellu hawl yr ymgeisydd, o fewn 21 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, i anfon y canlynol at Ofal Cymdeithasol Cymru i ategu'r cais i adolygu:
(i) sylwadau ysgrifenedig; ac
(ii) unrhyw dystiolaeth ddogfennol y dibynnir arni.

(3) Ni chaiff y gwrandawiad ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad cyn 42 ddiwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad ym mharagraff (2) ac eithrio gyda chytundeb yr ymgeisydd.

(4) Nid llai na saith niwrnod cyn y gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon copïau o'r canlynol at y panel apelau cofrestru:

(a) yr hysbysiad o'r gwrandawiad;
(b) y cais i adolygu'r cyfarwyddyd ac urnhyw ddogfennau a ddarperir gan yr ymgeisydd i'w ategu;
(c) copi o drawsgrifiad o'r gwrandawiad addasrwydd i ymarfer a gyflwynodd y gorchymyn dileu;
(d) copi o benderfyniad y panel apelau cofrestru, yn cynnwys y cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 98(4) y Ddeddf;
(e) unrhyw ddogfennau y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn dibynnu arnynt;
(f) unrhyw ddogfennau y mae'r ymgeisydd yn dibynnu arnynt.

**Baich a safon y prawf**

32. (1) Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am faich y prawf mewn achosion gerbron y panel apelau cofrestru o dan reol 3(1)(f).

(2) Pan fo anghydfod ynghylch y ffeithiau, bydd panel yn penderfynu ar y ffeithiau yn unol â'r safon mewn achosion sifil, yn unol â phwysau tebygolrwydd.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiadau**

33. (1) Bydd Rheolau 7, 9, 10 a 12 i 19 yn gymwys i geisiadau o dan y Rhan hon fel y bônt yn gymwys i apeliadau o dan Ran III.

(2) Bydd y cyflwynydd yn amlinellu hanes achos yr ymgeisydd a'r amgylchiadau y gwnaed y gorchymyn dileu odanynt a'r cyfarwyddyd a roddwyd.

(3) Caiff y cyflwynydd gyflwyno unrhyw ddogfennau a ystyriwyd gan y panel addasrwydd i ymarfer a wnaeth y gorchymyn dileu, penderfyniad y panel apelau cofrestru yn cynnwys y cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 98(4) y Ddeddf, ac unrhyw ddogfennau sydd wedi dod i law Gofal Cymdeithasol Cymru ers hynny sy'n ymwneud ag addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer a chaiff alw tystion i roi tystiolaeth.

(4) Caiff yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd anerch y panel ynghylch pam y dylid dirymu'r cyfarwyddyd.

(5) Bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw a gallant gael eu holi gan y parti arall, y panel a'r cynghorydd cyfreithiol.

(6) Bydd y panel apelau cofrestru yn cael cyngor cyfreithiol gan y cynghorydd cyfreithiol cyn dyfarnu ar y cais.

(7) Bydd y panel apelau cofrestru yn cael cyngor meddygol gan y cynghorydd meddygol cyn dyfarnu ar y cais pan wnaed y gorchymyn ar sail bod amhariad ar addasrwydd yr apelydd i ymarfer oherwydd rhesymau iechyd.

**Achos heb wrandawiad**

34. (1) Pan wneir dyfarniad ar gais o dan y Rhan hon mewn cyfarfod a heb yr angen am wrandawiad yn unol â Rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd gofynion canlynol y rheol hon yn gymwys a bydd rheol 34 yn gymwys mewn perthynas â'r weithdrefn i'w dilyn.

(2) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at yr ymgeisydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
(b) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y panel;
(c) yn hysbysu'r ymgeisydd am y canlyniadau posibl;

(d) yn gwahodd yr ymgeisydd i ddarparu unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig y mae'n dymuno'u gwneud ynghylch yr achos;

(e) yn hysbysu'r ymgeisydd o'i hawliau i:
   (i) fynychu gwrandawiad llafar;
   (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;
   (iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
   (iv) galw tystion a'u croesholi;

(f) yn hysbysu'r ymgeisydd bod yn rhaid iddo hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o'r cyfarfod os yw'n dymuno arfer unrhyw hawl ym mharagraff (e) ac, yn absenoldeb unrhyw hysbysiad o'r fath, y caiff y panel apelau cofrestru fwrw ymlaen i ymdrin â'r achos mewn cyfarfod ar y dyddiad penodedig.

(3) Ni chaiff y cyfarfod ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad cyn 42 ddiwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r cyfarfod ym mharagraff (2) ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

**Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apelau cofrestru**

35. (1) Bydd panel apelau cofrestru yn cyfarfod yn breifat gyda chynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti yn bresennol.

(2) Pan fo'r ymgeisydd wedi gwneud cais i'r achos gael ei ystyried mewn gwrandawiad, bydd y panel yn gohirio'r cyfarfod ar ei ganol ac yn atgyfeirio'r achos i wrandawiad.

(3) Os bydd y panel yn ystyried, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, y dylid ymdrin â'r achos mewn gwrandawiad er cyfiawnder ac er budd y cyhoedd, atgyfeirir yr achos i wrandawiad.

(4) Bydd y panel yn ystyried yr achos ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig a'r cyflwyniadau ysgrifenedig a wnaed gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chan neu ar ran yr ymgeisydd.

(5) Bydd penderfyniad panel apelau cofrestru a'r rhesymau dros y penderfyniad yn cael eu datgan yn gyhoeddus, naill ai ar ddiwedd y cyfarfod neu ar ddyddiad dilynol a chyflogwr(wyr) yr ymgeisydd (os oes un/rhai).

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

36. (1) Cyn pen saith niwrnod o ddiwedd y gwrandawiad neu'r cyfarfod, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at yr ymgeisydd a chyflogwr(wyr) yr ymgeisydd (os oes un/rhai).

(2) Bydd yr hysbysiad o'r penderfyniad:


(a) yn amlinellu'r penderfyniad a rhesymau'r panel apelau cofrestru;

(b) lle y bo'n gymwys, yn amlinellu hawl yr ymgeisydd i apelio i'r tribiwnlys.

(3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol am y penderfyniad, yn ysgrifenedig neu trwy broses electronig a chyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) unrhyw gorff rheoleiddiol.

**Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru**



**15 March 2018**

**……………………………………………  ………………………………**

**Arwel Ellis Owen**
**Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru** **Dyddiad**